Beth yw ein Gweledigaeth fel Eglwys?
"Gyda'r nod o ymestyn teyrnas Dduw, yr ydym yn ymrwymo i dyfu yn eglwys genhadol yng nghalon Dinas Caerdydd, drwy:

- feithrin doniau pobl Eglwys Dewi Sant drwy addoli a gwasanaethu yn y byd,
- wireddu potensial adeilad a safle Eglwys Dewi Sant
- sicrhau adnoddau ariannol digonol i gynnal a datblygu gweinidogaeth Eglwys Dewi Sant."

What is our Vision as a Church?
"With the aim of extending the kingdom of God, we commit ourselves to grow as a missionary church at the heart of the City of Cardiff, by:

- nurturing the gifts of people in Eglwys Dewi Sant through worship and service in the world
- realising the potential of the building and location of Eglwys Dewi Sant.
- seeking resources, financial and otherwise, to support and develop the ministry of Eglwys Dewi Sant."

We welcome visitors of all nationalities and denominations to Eglwys Dewi Sant. Please make yourself known to us and do sign the visitors' book. If you are learning Welsh, you will find the bilingual service books very useful. You may also wish to practise your Welsh after the service over coffee in the Church Hall.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant
Ficer/Vicar: Y Parchedig Hywel J. Davies
Ffôn: 029 2075 1418
E-bost: hywel33@btinternet.com
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys@jones4015.freeserve.co.uk
Margaret Hughes - Ffôn: 029 2089 1351
jcyril@hotmail.co.uk
Cyfarwyddydd Cerdd/Director of Music:
David Leggett - Ffôn: 079 177 65675
E-bost: leggettdm1@btinternet.com
Trysorydd – Rhys Jones
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Rhun Gwynedd ap Robert: Ffôn:029 2047 3725 neu 078 03 725836 E-bost: rhun@celtbach.com

CYFATHREBU
Dosberthir y daflen yn wythnosol drwy e-bost. Os nad ydych yn ei dderbyn yn y modd yma, a hoffech - anfonwch e-bost i'r cyfeiriad sy ar y diwedd er mwyn sicrhau eich bod mewn cysylltiad gyda'r eglwys bob wythnos: **rhys@jones4015.freeserve.co.uk**

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT

www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth

7 Mawrth 2010
Garawys 3

8.00 Cymun Bendigaid
Darllenydd: Dilys Hicks

10.30 Cymun Bendigaid ar Gân
(Offeren Mair y Tapyr yng nghefn llyfr emynau)
Darllenwyr: Robert James/Gerallt Hughes
Emynau: 71 (Wilton Square); 65 (Abergele); 150 (All Souls) 308 (Lobe den Herren)

6.00 Hwyrol Weddi ar Gân
Salm: 12 (Tudalen 456)
Darllenwyr: Len Williams/Beti Davies
Darlleniadau: Genesis 28. 10-19a
Ioan 1. 35-51
Emynau: 63 (Henlen a Buckland), 57 (Dymuniad); 340 (Caersalem)

Cofiwn yn ein gweddïau am y cleifion: Rae Dyer, Eryl Fuge, Eunice Iddles, Gwyn Jones, Leighton Jones, Richard Jones, Enid Mears, Catrin Morgan, Daniel Thomas a Haydn Walters ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist a phawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Digwyddiadau'r wythnos:

Nos Fawrth: 9 Mawrth 2010
8pm – Ymarfer Côr

Dydd Mercher: 10 Mawrth 2010
10.30 am - Cymun Bendigaid

Y SUL NESAF
14 Mawrth 2010
Sul y Fam – Garawys 4
8.00 am – Cymun Bendigaid
10.30 am - Cymun Bendigaid ar Gân
6.00 pm - Hwyrol Weddi ar Gân

DATHLU GŴYL DEWI 2010
Gair o ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cinio llwyddianus i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant a hefyd i'r rhai a fu yn addurno'r eglwys ar gyfer ein gwasanaeth arbennig. Derbyniwyd £324 tuag at waith y to.

DOSBARTHIADAU CONFFIRMASIWN
Mae`r Ficer yn awyddus i gychwyn cyfres o ddosbarthiadau ar gyfer Bedydd Esgob neu Gonffirmasiwn**. Dylai darpar ymgeiswyr gysylltu â`r Ficer neu`r Wardeniaid.** Gall plant neu oedolion, sydd wedi eu bedyddio, ymaelodi â`r dosbarthiadau paratoi hyn. Mae Conffirmasiwn yn gyfle i gadarnhau'r ymrwymiadau a wnaed ar ein rhan pan y'n bedyddiwyd fel plant. Mae hefyd yn arwydd, ac addewid, o rodd yr Ysbryd Glan sy`n nerthu ein bywyd ysbrydol.

SGYRSIAU GARAWYS – ESGOB DAVID
"Bydd yr Esgob Cynorthwyol, y Gwir Barch`g David Wilbourne yn cynnal cyfres o sgyrsiau yn nhymor y Garawys eleni mewn tair canolfan yn yr esgobaeth, sef Eglwys Dewi Sant, Castell Nedd, Cadeirlan Llandaf, ac Eglwys Elfan Sant, Aberdar. Saesneg fydd iaith y sgyrsiau. Gweler yr hysbysfwrdd yn y neuadd am fanylion."

CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD
Bydd Gwasanaeth myfyrdod y Garawys o dan nawdd y cyngor yng Nghapel Minny Street, nos Iau, 11 Mawrth am 7.30 yr hwyr. Y siaradwr gwadd bydd y Parchedig Menna Brown.
NODWCH: Bydd y myfyrdod olaf y Garawys yma yn Eglwys Dewi Sant, nos Iau, 25 Mawrth am 7.30yh. Y Siarawdwr bydd Y Parch Aled Edwards.

CYFRANNU DRWY "RHOI YN SYTH"
Mae'r cynllun GWADD (Debyd Uniongyrchol) wedi ei ail lawnsio fel cynllun "RHOI YN SYTH". Mae nifer helaeth o aelodau'r eglwys yn talu eu cyfraniadau yn fisol gan ddefnyddio'r cynllun hwn. Os hoffech fod yn rhan o'r cynllun hwn mae'r manylion a'r ffurflenni ar gael. **Os ydych eisoes yn cyfrannu drwy GWADD ac angen newid maint eich cyfraniadau misol mae ffurflen arbennig ar gael hefyd ar gyfer y pwrpas hwn. Mynnwch air gyda Rhys Jones.**

"TAITH DRWY'R HEN DESTAMENT"
Daeth cais oddi wrth Verina Matthews – Y Tabernacl - i ofyn os byddai gan bobl ifanc yr eglwys (oedran ysgol uwchradd mis Medi nesaf i fyny) ddiddordeb mewn ymdrech arall tebyg i *"Llawenydd Jerwsalem"***.** Mae Verina wrthi ar hyn o bryd yn paratoi 'sioe gerdd', Taith drwy'r Hen Destament, sy'n clymu rhai o storiau a geir yn yr Hen Destament. Gobeithir cychwyn yr ymarferion ar ôl Pasg (bob nos Fercher) ac yn perfformio pan fyddant yn barod yn nhymor yr Hydref. Roedd cynhyrchiad *"Llawenydd Jerwsalem"* yn arbennig. Bydd yn dda i gael cynrychiolwyr o Dewi Sant yn rhan o gyflwyniad 2010 – enwau i'r Ficer.

GWEDDÏAU'R SUL
Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:

- Eglwys Hong Kong Sheng Hui Hong Kong Island – Hong Kong a'r Parchedicaf Paul Kwong.
- Plwyf Llanhari, a'r Parchedig Roger Pitman

GWYLIAU A DARLLENIADAU'R WYTHNOS

Llun, 8 Mawrth:
Luc 4. 24-30
Gweddiwn dros: Bolivia, De America a'r Esgob Frank Lyons.
Plwyf Rheithorol Llanilltud Fawr, a'r Parchedigion John Webber, Melanie Prince, John Njoroge a David Boult.

Mawrth, 9 Mawrth:
Mathew 18. 21-35.
Gweddiwn dros: Bondo, Kenya a'r Esgob Johannes Otieno Angela.
Plwyf Pendeulwyn a Llanddunwyd a'r Parchedigion Edwin Counsell a Rachel Lewis.

Mercher, 10 Mawrth:Perpetwa, Felicitas a'u Cymdeithion (203), Merthyron
Mathew 5. 17-20
Gweddiwn dros: Bor, Sudan a'r Esgob Nathaniel Garang Angieth a hefyd yr Esgob Cynorthwyol Trevor Selwyn Mwamba.
Cymdeithas Eglwysi y Byddar yn y De Ddwyrain a'r Caplan, Margaret Le Grice a phob cynulleidfa Byddar arall sydd yn addoli yn yr esgobaeth.

Iau, 11 Mawrth:
Luc 11. 14-23
Gweddiwn dros: Botswana, Affrica Canolog a'r Esgob Trevor Selwyn Mwamba.
Plwyf Llanbedr-y-fro gyda Llansantffraid-ar-Elái a'r Parchedigion Rachel Lewis ac Anne Swann.

Gwener, 12 Mawrth:
Marc 12. 28-34
Gweddiwn dros: Bradford, Efrog a'r Esgob David Charles James.
Plwyf Pont-y-clun gyda Thal-y garn a'r Parchedig Grace Karamura

Sadwrn, 13 Mawrth:
Luc 18. 9-14
Gweddiwn dros: Brandon, Rupert's Land, Canada a`r Esgob James Njeggovan.
Plwyf Sain Nicolas gyda Thresimwn a San Siorys ar Elái a'r Parchedigion Rachel Lewis ac Anne Swann.